Canllaw i **Wasanaeth Erlyn y Goron**

‘Mae’r gwasanaeth erlyn yn gryf; yn benodol ac yn gallu cyflawni safonau rhagorol. Y mae hi bellach yn bryd adeiladu ar y llwyfan sicr hwnnw ac ymgorffori’r gwasanaeth erlyn cyhoeddus wrth wraidd cyflwyno cyfiawnder troseddol yn yr 21ain ganrif.’

Keir Starmer, Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Canilaw i Wasanaeth Erlyn y Goron

GWASANAETH ERLYN Y GORON

Cafodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei sefydlu yn 1986 i erlyn achosion troseddol a ymchwilir gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Wrth wneud hyn, bydd y CPS yn:

- cynghori'r heddlu ar achosion posib i'w herlyn;
- adolygu achosion a gyflwynir gan yr heddlu ar gyfer eu herlyn;
- os penderfynir erlyn, pennu'r cyhuddiad ym mhob achos ac eithrio'r rhai lleiaf;
- paratoi achosion ar gyfer y llys;
- cyflwyno'r achosion hynny yn y llys.

Cynnwys

Pum Ffaith am y CPS, Ein Nod a'n Gweledigaeth	2-3
Cyhuddo Statudol	4
Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	5
Rhybuddio Amodol a Chyhoeddiadau'r CPS	6
Trosedd Casineb	7
Trais yn y Cartref a Thrais yn erbyn Menywod	8
Gwneud i Gyfiawnder Dalu	9
Dioddefwyr a Thystion, y Côd i Ddioddefwyr ac Addewid yr Erlynwyr	10-12
Adfocatiaeth Fewnol	13
Gweithio i'r CPS	14-16
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	17
Ffeiliau Achosion	18-21
Ateb Eich Cwestiynau	22-23

Pum Ffaith am y CPS

- Pennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Keir Starmer QC. Arolygir y Cyfarwyddwr gan y Twrnai Cyffredinol, sy'n atebol i'r Senedd am y Gwasanaeth. Mae'r Cyfarwyddwr yn cael ei gefnogi gan Brif Weithredwr, Peter Lewis, sy'n gyfrifol am redeg y busnes o ddydd i ddydd, gan adael i'r Cyfarwyddwr ganolbwyntio ar erlyn, materion cyfreithiol a pholisi cyfiawnder troseddol.

- Mae gan y CPS 42 Rhanbarth ledled Cymru a Lloegr, wedi'u rhannu'n 15 Grŵp rhanbarthol. Mae pob Rhanbarth dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron (CCP) sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaeth erlyn o ansawdd uchel i'w gymuned leol ef neu hi. Mae staff y pencadlys yn Llundain, Efrog a Birmingham. Y mae un Rhanbarth arall "rhithwir", sef CPS Direct, sy'n cynnig cyngor ynghylch Cyhuddo i'r heddlu y tu allan i oriau swyddfa – gweler tudalen pedwar.

- Rhwng Ebrill 2008 - Mawrth 2009, erlynodd y CPS 928,708 o achosion yn y llysoedd ynadon a 103,890 yn Llys y Goron. Hefyd gwnaeth y CPS 532,427 o benderfyniadau cyn cyhuddo.

- Ym mis Hydref 2005 fe gyflwynwyd tair Adran Gwaith Achos Penodol newydd i ddelio â throseddu cyfundrefnol, gwrthderfygaeth a throsedd arbenigol. Fe gafodd yr adrannau hyn eu creu er mwyn darparu gwasanaeth erlyn o'r radd flaenaf i'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a sicrhau bod y CPS yn gallu delio â'r ystod lawn o droseddau difrifol. Trwy erlyn yr achosion amlwg hyn, mae staff y CPS yn gallu arddangos eu sgiliau ar y lefelau uchaf a chyfrannu at wella hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol.

- Y CPS yw'r "cwmni cyfreithiol" mwyaf yn y Deyrnas Unedig, yn ymdrin ag achosion troseddol yn unig. Ar ddiwedd Mawrth 2009, roedd y CPS yn cyflogi cyfanswm o 8,897 o bobl. Yn eu plith roedd 2,908 o erlynwyr a 5,406 o weithwyr achosion a gweinyddwyr. Mae dros 92 y cant o'r holl staff yn ymwneud ag erlyniadau yn y rheng flaen, neu gefnogaeth i'r erlyniadau hynny.

Ein Nod

Ni, y CPS, yw'r prif awdurdod erlyn yng Nghymru a Lloegr. Yn ein gwaith o ddydd i ddydd fe fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda:

- Yr Heddlu;
- Gwasanaeth Llysoedd EM;
- Y Gwasanaeth Prawf;
- Y Gwasanaeth Carchardai;
- Y Gwasanaeth Tystion;
- Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau EM;
- Y Swyddfa Twyll Difrifol; a'r
- Gweithgor Iechyd a Diogelwch.

Ein nod cyffredinol, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer y system cyfiawnder troseddol (CJS), yw:

Cyflwyno gwasanaeth erlyn o safon uchel sy'n dod â throseddwyr o flaen eu gwell, sy'n helpu i leihau troseddu a lleihau ofn troseddu, a thrwy hynny roi mwy o hyder i'r cyhoedd yn nhrefn y gyfraith trwy adolygu achosion yn gyson, teg ac annibynnol a thrwy eu cyflwyno'n deg, trylwyr a chadarn yn y llys.

Ein Gweledigaeth

Rydym yn gweithio i fod yn awdurdod erlyn annibynnol ar lefel fyd-eang sy'n cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus a werthfawrogir trwy:

- gryfhau'r broses erlyn er mwyn dod â throseddwyr o flaen eu gwell;
- eiriol o blaid cyfiawnder a hawliau dioddefwyr;
- ennyn hyder y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu;
- ysgogi newid a chyflawni yn y system cyfiawnder troseddol;
- ag enw da am degwch, cyfleoedd gyrfa ardderchog ac ymrwymiad a sgiliau ein holl bobl;
- bod â gallu cryf i gyflawni.

Cyhuddo Statudol

Trwy weithio'n agos â chydweithwyr yn yr heddlu rydym wedi cyflwyno Cyhuddo Statudol ym mhob un o'r 42 Rhanbarth.

Gan weithio wrth galon y system cyfiawnder troseddol, ein herlynwyr sydd bellach yn dewis y cyhuddiad ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, gan sefydlu achosion cryf o'r cychwyn cyntaf. Mae'r dull gweithredu hwn eisoes wedi arwain at gynnydd yn nifer y pledion euog, gan ostwng y baich ar y llysoedd ac, yn bwysicaf oll, darparu gwell gwasanaeth i'r dioddefwyr a'r tystion sydd ynghlwm wrth bob achos.

Ystyrir mai Cyhuddo Statudol yw'r datblygiad unigol mwyaf arwyddocaol o ran ymdrin â gwaith achosion troseddol penodol ers i ni gael ein sefydlu.

Rhan anhepgor o Gyhuddo Statudol yw CPS Direct, sef gwasanaeth ffôn cenedlaethol y tu allan i oriau'r swyddfa lle gall yr heddlu gael cyngor am Gyhuddo 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Yn ystod 2008-09, atebodd 135 o erlynwyr CPS Direct 177,373 galwad a rhoi 144,052 darn o gyngor am Gyhuddo. Mewn ffordd, mae CPS Direct yn Rhanbarth ychwanegol "rhithwir", dan arweiniad Prif Erlynydd y Goron.

Y Côd ar gyfer Erlynwyr Y Goron

Mae'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron yn ddogfen gyhoeddus, a gyflwynir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae'n disgrifio'r egwyddorion cyffredinol y dylai Erlynwyr y Goron eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch achosion.

A oes digon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd?
Wrth benderfynu a oes digon o dystiolaeth i erlyn, rhaid i Erlynwyr y Goron ystyried a ellir defnyddio'r dystiolaeth yn y llys ac a yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy. Rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi "gobaith realistig o euogfarn" yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad.

A yw hi er budd y cyhoedd i'r CPS ddod â'r achos i'r llys?
Fe fydd erlyniad fel arfer yn mynd yn ei flaen oni bai fod y ffactorau budd y cyhoedd sy'n gogwyddo yn erbyn erlyn yn amlwg yn fwy na'r ffactorau o'i blaid.

Rhybuddio Amodol

Fe gafodd rhybuddiadau amodol eu sefydlu gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mewn achosion priodol gellir eu defnyddio fel ffordd o ddargyfeirio troseddwyr rhag gorfod mynd i'r llys os yw eu troseddu yn ddigon difrifol i warantu eu herlyn, ond eu bod yn barod i gyfaddef i'r trosedd ac yn cytuno i gyflawni gweithgareddau ailsefydlu neu wneud iawn fel amod o gael eu rhybuddio.

Yn wahanol i rybuddiad syml, dim ond erlynydd all benderfynu a ddylid cynnig rhybuddiad amodol ai peidio, un ai fel rhan o'r broses Gyhuddo Statudol neu wrth adolygu achos ble mae'r heddlu wedi dwyn cyhuddiad.

Cyhoeddiadau'r CPS

Fel rhan o'n hymrwymiad i ymwneud â phob rhan o'r gymuned, byddwn yn cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau. Yn eu plith mae llyfrynnau sy'n amlinellu ein polisi ar gyfer ymdrin ag achosion o dreisio, trais yn y cartref, troseddau casineb ac achosion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Rydym hefyd wedi paratoi DVD arobryn o'r enw *Just Deserts*, gan ddilyn hanes llanc yn ei arddegau sy'n dyst i ladrad ac mewn penbleth rhwng rhoi tystiolaeth neu gadw'n dawel.

Fe gewch wybod mwy am ein cyhoeddiadau ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk, neu gan ein cangen cyfathrebu, e-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Trosedd Casineb

I ni, digwyddiad wedi'i ysgogi gan hil neu grefydd yw:

Unrhyw ddigwyddiad a ystyrir gan y dioddefwr neu unrhyw un arall yn ddigwyddiad wedi'i ysgogi gan hil neu grefydd.

Mae trosedd yn un gwaethygol hiliol neu grefyddol:

- os yw'r troseddwr, adeg cyflawni'r trosedd, neu'n union cyn neu ar ôl gwneud hynny, yn arddangos gelyniaeth tuag at ddioddefwr y trosedd ar sail bod y dioddefwr (neu dybiaeth ei fod ef neu hi) yn aelod o grŵp hiliol neu grefyddol; neu
- os yw'r trosedd wedi'i ysgogi (yn llwyr neu'n rhannol) gan elyniaeth tuag at aelodau o grŵp hiliol neu grefyddol ar sail eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw.

Gyda rhai troseddau, gan gynnwys ymosod, aflonyddu, difrod troseddol a throseddau trefn gyhoeddus, gellir eu herlyn yn benodol fel troseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol.

Gydag unrhyw drosedd arall ble ceir tystiolaeth o weithgarwch gwaethygol hiliol neu grefyddol, mae'r diffynnydd yn wynebu dedfryd fwy llym na phetai ef neu hi wedi'i gael yn euog o drosedd nad yw'n hiliol neu'n grefyddol.

Trosedd homoffobig yw:

Unrhyw ddigwyddiad a ystyrir gan y dioddefwr neu unrhyw un arall yn homoffobig neu'n drawsffobig [gan gynnwys y troseddwr].

Rydym yn ystyried troseddau homoffobig yn arbennig o ddifrifol oherwydd eu bod yn tanseilio hawl pobl i deimlo'n ddiogel ynghylch eu tueddfryd rhywiol a bod yn ddiogel beth bynnag fo'r tueddfryd hwnnw.

Mae troseddau o'r fath wedi'u seilio ar ragfarn, gwahaniaethu a chasineb, ac nid oes lle iddynt mewn cymdeithas agored a democrataidd.

Rydym yn ystyried elfen homoffobig unrhyw drosedd yn nodwedd waethygol ddifrifol. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan i leihau troseddu trwy ddod â throseddwyr gerbron llys.

Mae'r CPS hefyd wedi cyhoeddi Datganiad Polisi yn nodi sut bydd yn delio â throsedd casineb tuag at bobl anabl.

Trais yn y Cartref

Wrth erlyn achosion o drais yn y cartref (DV), os na fydd dioddefwr yn awyddus i roi tystiolaeth bellach, nid yw'n golygu y bydd yr achos yn dod i ben yn awtomatig. Cyn penderfynu bwrw ymlaen ag erlyniad ai peidio, byddwn yn ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael.

Gallwn geisio llunio achosion ar sail tystiolaeth heblaw'r hyn a geir gan y dioddefwr, er enghraifft, tystiolaeth o'r lleoliad, adroddiadau gan heddweision, a chofnod o alwadau 999.

Ein blaenoriaeth gyntaf fydd diogelwch y dioddefwr, plant ac unrhyw un arall sydd mewn perygl.

Cefnogaeth neu wybodaeth:

Llinell Gymorth Radffon 24 awr DV:
0808 2000 247

RESPECT – llinell gymorth i bobl sy'n cyflawni trais:
0845 1228 609

Trais yn Erbyn Menywod

- Bydd un menyw o bob pedair yn cael profiad o drais yn y cartref ryw adeg yn ystod eu hoes.
- Bydd dwy fenyw yn cael eu lladd bob wythnos gan bartner presennol neu flaenorol.

Ym mis Ebrill 2008 fe wnaethom ni gyhoeddi ein Strategaeth Trais yn erbyn Menywod (VAW) a Chynllun Gweithredu. Mae'r Strategaeth VAW yn cwmpasu set o fathau o droseddau sydd â phatrwm yn gysylltiedig â rhywedd.

Yn eu plith mae:
- trais yn y cartref;
- treisio;
- cam-drin plant;
- llurgunio organau rhywiol merched;
- troseddau rhywiol;
- priodas dan orfod;
- troseddau yn erbyn pobl hŷn;
- masnachu pobl;
- puteindra; a
- throseddau anrhydedd.

Gwneud i Gyfiawnder Dalu

Gan weithio gyda'r heddlu, rydym yn benderfynol o sicrhau na fydd troseddu yn talu.

Fe ddaeth Deddf Elw Troseddau 2002 (POCA) i rym yn 2003. Dyma ei nod:

- Rhwystro troseddwyr neu gyd-droseddwyr rhag gwyngalchu elw troseddau a mynd ati i ganfod a chosbi gwyngalchu o'r fath
- Adennill arian a wnaed trwy droseddu neu y bwriedir ei ddefnyddio i droseddu, a'i ddefnyddio er budd y gymuned.

Dyma atgoffa pawb sy'n cyflawni trosedd er elw ariannol y bydd cael eu dal nid yn unig yn golygu'r risg o gael dedfryd o garchar, ond hefyd y bydd eu harian ac unrhyw asedau yn cael eu cymryd oddi arnynt.

Yn 2008-09, fe wnaethom ni sicrhau 4,920 gorchymyn atafaelu oedd yn werth £144,978.209, yn ogystal â 1463 gorchymyn llesteirio.

Dioddefwyr a Thyston

Fe gafodd Unedau Gofal Tystion (WCU) eu creu dan fenter Dim Tyst Dim Cyfiawnder i roi gwell gwasanaeth i bob dioddefwr a thyst i droseddau yng Nghymru a Lloegr mewn achosion ble cafodd rhywun ei gyhuddo. Mae staff o'r CPS a phersonél yr heddlu yn yr unedau, a bellach mae yna Uned Gofal Tystion ym mhob Rhanbarth y CPS.

Bydd Swyddog Gofal Tystion yn cael ei neilltuo ar gyfer pob dioddefwr a thyst, i'w harwain drwy eu profiad. Bydd y swyddog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau'r llys, ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am y system cyfiawnder troseddol a thawelu eu meddyliau am bob agwedd o'u hymddangosiad yn y llys.

Gellir trefnu i ymweld â'r llys cyn yr achos, er mwyn gweld y cyfleusterau i dystion a cherdded o gwmpas y llys. Os bydd ar y dioddefwr neu'r tyst angen triniaeth arbennig yn y llys, gall y CPS wneud cais am fesurau arbennig. Yn yr un modd os oes gan ddioddefwr neu dyst bobl sy'n ddibynnol arnynt, a'i bod yn anodd iddynt fynychu'r llys, fe all y Swyddog Gofal Tystion drefnu gwarchodwr plant cofrestredig.

Oeddech chi'n gwybod, er enghraifft:

- gellir trefnu sgriniau i guddio tyst oddi wrth diffynnydd
- gellir gwneud trefniadau i roi tystiolaeth trwy gyswllt teledu byw
- gall barnwyr a chyfreithyddion dynnu eu wigiau a'u gynau
- gellir gwagio'r oriel gyhoeddus

Y nod yw ceisio sicrhau fod cyn lleied o bwysau â phosib ar unigolion sy'n mynychu'r llys a bod dioddefwyr a thystion yn cael y newyddion diweddaraf mewn ffordd sy'n gyfleus iddyn nhw. Gall hyn fod trwy lythyr, e-bost, neu hyd yn oed neges destun. Mae tystion yn rhan allweddol o sicrhau erlyniadau a phontio'r bwlch cyfiawnder, felly rydym yn awyddus i sicrhau bod y profiad mor hawdd â phosib.

Yn Uned Gofal Tystion Maidstone, roedd gan Louise dyst cyndyn dros ben; eto fe feddyliodd hi am ffordd arbennig ond syml o wneud yn siwr y byddai'n dod i'r llys.

Fe gyfaddefodd y tyst wrth Louise ei fod yn alcoholig, a bod ymddangos yn gyhoeddus yn anodd dros ben iddo. Yn benodol, roedd yn poeni y byddai pobl yn sylwi bod ei ddwylo'n crynu oherwydd effeithiau'r ddiod (deliriwm tremens).

Gofynnodd Louise a fyddai modd gwneud cais mesurau arbennig i ganiatáu i'r tyst roi ei dystiolaeth ar ei eistedd. Cafodd y cais ei ganiatáu, a bu'r tyst yn eistedd ar ei ddwylo gan osgoi'r embaras yn sgil ei salwch.

Fe ffoniodd ar ôl y treial i ddiolch i Louise am ei chymorth, a'r parch roedd hi wedi'i ddangos tuag ato.

Yn CPS Dyffryn Tafwys, bu dioddefwr trosedd â pharlys ymledol yn rhoi tystiolaeth o'i chartref trwy gyswllt teledu byw gyda Llys y Goron Rhydychen. Dywedodd yn ddiweddarach: "Ro'n i'n teimlo fel petawn yn cael fy rhoi yn gyntaf am y tro cyntaf yn fy mywyd."

Côd i Ddioddefwyr

Fe ddaeth y Côd Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau (y Côd i Ddioddefwyr) i rym yn llawn ar 4 Ebrill 2006.

Mae'r Côd i Ddioddefwyr yn rhoi hawl i ddioddefwyr gael safonau gwasanaeth sylfaenol gan y system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i ddioddefwyr agored i niwed a hawdd eu dychryn, o fewn un diwrnod gwaith, os nad oes digon o dystiolaeth i gyhuddo diffynnydd, ac o fewn pum niwrnod gwaith i bob dioddefwr arall, yn ogystal â nodi unrhyw fesurau arbennig a allai fod yn briodol.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'n rhwymedigaethau dan y Côd i Ddioddefwyr.

Addewid yr Erlynwyr

Yn 2005, fe gyflwynwyd Addewid Erlynwyr gan y Twrnai Cyffredinol gyda 10 o bwyntiau sy'n disgrifio lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ddisgwyl ei dderbyn gan erlynwyr. Mae hyn yn cynnwys ystyried effaith trosedd ar y dioddefwr neu eu teulu wrth wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo a hybu ac annog cyfathrebu dwy ffordd rhwng dioddefwr ac erlynydd.

Fe gewch gopi o Addewid yr Erlynwyr ar ein gwefan yn www.cps.gov.uk

Adfocatiaeth Fewnol

Bydd erlynwyr modern yn cynnal eu hadfocatiaeth eu hunain fel mater o drefn. Bu ein Gweithwyr Achosion Penodedig yn mynd ati'n gyson i erlyn achosion yn gadarn a theg mewn llysoedd ynadon, ac mae erlynwyr heddiw yn magu mwy a mwy o brofiad yn Llys y Goron.

Gelwir y cyfreithwyr a'r bargyfreithwyr hyn yn Adfocadau'r Goron, a chawsant hawliau arbennig i ymddangos mewn llysoedd uwch.

Fwyfwy bydd cronfa ddawnus y Gwasanaeth o adfocadau yn defnyddio eu doniau mewn treialon sy'n parhau'n hwy ac sy'n gynyddol gymhleth.

Dyma un o seiliau gweledigaeth y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus y bydd y CPS yn wasanaeth erlyn gyda'r gorau yn y byd, sy'n mynd ati i gynnal ei adfocatiaeth ei hun fel mater o drefn.

Erbyn hyn, bydd staff mewnol yn delio, ar gyfartaledd, â thua 14,500 gwrandawiad y mis yn Llys y Goron, gan arbed tua £23.6 miliwn y flwyddyn mewn ffïoedd cwnsleriaid.

HCAs o CPS Hampshire ac Ynys Wyth.

Gweithio i'r CPS

Ni fu cyfleoedd i gael gyrfa yn y CPS erioed mor amrywiol; boed chi'n ymuno â ni fel gweinyddydd, gweithiwr achosion penodol neu gyfreithydd, mae gennym ddewis eang o swyddi cyffrous ar gael. Mae ein cynllun dysgu a datblygu arobryn, sef Cynllun Ysgoloriaeth y Gyfraith, yn cynnig llwybr clir o ddatblygu ac ennill cymwysterau o swydd gweinyddydd at erlynydd, gyda chymorth ariannol tuag at ddewis eang o gymwysterau cyfreithiol.

Rydym wedi ymrwymo i amrywiaeth a byddwn yn mynd ati i wrthwynebu gwahaniaethu.

Mae sawl mantais o weithio i'r CPS, gan gynnwys —

- cyfleoedd i gael profiad o wahanol swyddogaethau neu drwy arbenigo ar faes arbennig
- gweithio hyblyg, gan gynnwys oriau hyblyg, gweithio'n rhan amser, rhannu swyddi, a seibiant gyrfa
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol, a allai godi i 30 diwrnod. Hefyd y mae 10.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a diwrnodau braint
- cefnogaeth gyda gofal plant
- Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
- hyfforddi a datblygu: byddwn yn annog ein staff i fynd ar gyrsiau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Darperir hyfforddiant yn fewnol neu drwy gyrsiau allanol ar gyfer pob gradd a phrofiad.

Mae manylion am swyddi gweigion a rhagor o wybodaeth i'w cael ar lein yn www.cps.gov.uk/careers

Mewn pleidlais yn 2005, y CPS oedd y cyflogwr gorau yn y sector cyhoeddus yng Ngwobrau Cydraddoldeb Hiliol y Cyfreithwyr, a ddyfarnwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.

Gweithio i'r CPS

Oliver Haswell

Bu Oliver Haswell yn Rheolwr Cyfathrebu Rhanbarthol dros CPS De Cymru a Gwent, a dangosodd bod gweithio ac astudio'n rhan amser yn gallu talu ar ei ganfed. Symudodd Oliver o Went i Dde Cymru ym mis Medi 2005, gan gwblhau Cwrs Galwedigaethol y Bar yn Ysgol y Gyfraith Caerdydd trwy Gynllun Ysgoloriaeth y Gyfraith (LSS) y CPS.

Yn ystod yr amser hwn, fe ddyfarnwyd £10,000 trwy'r Fwrsariaeth ar gyfer Gweision Sifil Anabl i Oliver, sy'n gweld yn rhannol, i'w wario ar hyfforddiant a datblygiad. Ac fe fu'r cyfan yn werth yr ymdrech yn y diwedd.

Fe sgoriodd Oliver 10 gradd "rhagorol" a thair gradd "tra chymwys" yn ei arholiadau, gan ennill marc cyffredinol o 92 y cant ar draws yr 13 asesiad. Fe'i galwyd i'r Bar gan Lety Gray ar 27 Gorffennaf 2006.

Bu Oliver gyda'r CPS ers 2003 gan symud i CPS Norfolk i fwrw tymor prawf, a bellach mae'n Uwch Erlynydd y Goron.

"Bu hon yn flwyddyn eithaf caled ond rwy'n falch iawn gyda'r canlyniad," meddai Oliver. "Fe gefais gefnogaeth anhygoel gan y CPS yng Ngwent a De Cymru drwy gydol f'amser yn astudio, heb sôn am gymorth fy mam wych a oedd yn codi am 5 y bore i fynd â mi at y trên bob dydd.

"Fe fydd hi'n cael codi'n hwyrach nawr, gan i mi symud i ochr arall y wlad."

Bu Oliver yn cynrychioli'r Deyrnas Unedig yn America hefyd, yn yr 17fed Cystadleuaeth flynyddol Genedlaethol ar Adfocatiaeth Treialon Cyfiawnder Troseddol yn Chicago.

Gweithio i'r CPS

Raj Kumar

Dechreuodd Raj Kumar weithio fel llungopïwr/glanhäwr yn swyddfa'r CPS yn Bradford yn 2002. Yn 2005 daeth yn Erlynydd y Goron, a bellach fe symudodd ymlaen i fod yn Uwch Erlynydd y Goron.

Roedd Raj, sy'n rhiant sengl, eisoes wedi cwblhau Gradd yn y Gyfraith a Chwrs Ymarfer Cyfreithiol cyn ymuno â'r Gwasanaeth. Llwyddodd i gwblhau ei Gontract Hyfforddi trwy'r LSS.

"Fe fu'n werth yr holl ymdrech. Nid yn unig yr ydw i wedi cymhwyso, mae fy merch wedi penderfynu ei bod hithau eisiau bod yn erlynydd" meddai Raj.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Efallai fod achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel fandaliaeth, graffiti neu aflonyddu, yn ymddangos yn droseddau cymharol fân. Ond maen nhw'n gallu cael effaith ysgubol ar gymunedau lleol, gan achosi i breswylwyr fyw mewn ofn a difetha ansawdd bywyd pobl.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, awdurdodau lleol a'r llysoedd i fynd i'r afael â phob math o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gallai'r rhain gynnwys cyffuriau, cardota, trosedd ar y stryd, pobl ifanc yn camymddwyn, anhrefn cyffredinol a difrod troseddol.

Ble bydd yn briodol, fe fyddwn yn gwneud cais am Orchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) adeg dedfrydu pobl yn euog ac, os torrir unrhyw rai o'r gorchmynion, byddwn yn cefnogi asiantaethau eraill i'w gorfodi.

Ymgyrch Lund

Mae'r canlyniad llwyddiannus yn achos casglwyr cocos Bae Morecambe yn Swydd Gaerhirfryn yn dangos lefel uchel y cydweithrediad a'r cydweithio rhwng y CPS a'r heddlu. Roedd trasiedi'r sefyllfa yn symbyliad cryf i bawb a fu ynghlwm â'r achos.

"Rwy'n credu bod y tîm erlyn i gyd yn teimlo'n gryf bod dioddefaint y rhai a fu farw a loes parhaus eu perthnasau a'r tystion a oroesodd yn symbyliad cryf i ni weithio mor galed ac am gymaint o amser i ddod â'r achos hwn i ben yn llwyddiannus," meddai Duncan Birrell, y cyfreithydd yng ngofal yr achos i'r CPS.

Daeth Duncan yn rhan o'r achos ym mis Ebrill 2004 a buan y sefydlodd gysylltiad personol a phroffesiynol agos gyda'r uwch swyddog ymchwilio a'i dîm o Heddlu Swydd Gaerhirfryn. Bu'n rhaid i Duncan fynd ati'n gyflym i amgyffred y deunydd yr oedd yr ymchwilwyr wedi'i gasglu ar y pryd. Roedd problemau cyfreithiol cymhleth ynghlwm wrth y cyhuddiadau arfaethedig o ddynladdiad trwy esgeuluster garw, gwyrdroi cwrs cyfiawnder ac, yn bwysig, troseddau yn erbyn y Ddeddf Mewnfudo.

Roedd miloedd o ddatganiadau gan dystion a dogfennau wedi dod i law yn ystod yr ymchwiliad.

Fe aeth y tîm dramor i nifer o wledydd, gan gynnwys Sbaen er mwyn deponio tystion mewn Llys Sirol yn Sbaen; anfonwyd tîm ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS a gallai Duncan holi tystion a gludwyd i'r llys.

Meddai Duncan: "Yr oedd rhai yn amau a allai'r achos hwn lwyddo, oherwydd yr haenau o gymhlethdod ffeithiol a chyfreithiol. Nid y lleiaf o'r rhain oedd fod y tystion a oroesodd yn gyndyn ar y dechrau i siarad yn agored am yr hyn a ddigwyddodd, ond fe lwyddwyd i oresgyn y problemau a'r anawsterau hynny yn sgil gwaith tîm agos ac effeithiol gan yr heddlu a'r CPS."

Erlyniad llwyddiannus, ond dim dioddefwr

Llwyddwyd i dorri tir newydd ym myd y gyfraith wrth i erlynydd ar ddyletswydd CPS Direct roi cymorth i CPS Llundain. Erlynwyd Farhan Osman yn llwyddiannus am geisio treisio heb i'r ddioddefwraig gael ei chanfod erioed. Fe gafodd Osman ei arestio funudau ar ôl yr ymosodiad, ond fe ddiflannodd y ddioddefwraig a'r tystion fu'n ei helpu.

Dywedodd erlynydd CPS Direct Sophie Judge: "Roedd hwn yn achos diddorol oherwydd nad oedd yna ddioddefwraig a'r ffaith fod raid i mi ddibynnu'n llwyr ar yr hyn a welwyd ar CCTV ac a ddisgrifiwyd dros y ffôn gan y swyddog yn yr achos." Bu Sophie yn trafod gyda'i chydweithwyr yn CPS Direct, gan roi ystyriaeth i'w profiad a'u hawgrymiadau wrth wneud penderfyniad i gyhuddo.

Fe gadarnhawyd ei phenderfyniad yn ddiweddarach gan y cyfreithydd a fu'n adolygu'r achos ac fe blediodd Osman yn euog i ymgais i dreisio yn Llys y Goron Llundain Fewnol. Yn yr un llys, yn ddiweddarach, cafodd ei anfon i ysbyty meddwl dan Adran 37 y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Ymgyrch Lund

Fe gafodd y pennaeth gangiau Lin Liang Ren ei ddyfarnu'n euog o ddynladdiad y 21 o gasglwyr cocos a foddodd ym Mae Morecambe ac fe'i dedfrydwyd i 14 mlynedd dan glo.

Anthony Walker

Bu farw Anthony Walker, 18 oed a myfyriwr lefel A, ar ôl i griw o ddynion ymosod arno yng Nglannau Mersi. Roedd Anthony wedi wynebu sen hiliol wrth sefyll mewn arhosfan bysiau gyda'i gariad a'i gefnder. Wrth iddynt gerdded i ffwrdd, ymosodwyd ar Anthony gan ddyn â bwyell a chafodd niweidiau difrifol i'w ben. Bu farw yn yr ysbyty yn fuan wedyn.

Cysylltodd Heddlu Glannau Mersi ar unwaith ag Erlynydd Sirol Cynorthwyol CPS Glannau Mersi, Colin Davies. Ar ôl clywed cyfweliadau ar dâp gyda'r diffynyddion, Michael Barton a Paul Taylor, rhoddodd Colin awdurdod ar i'r ddau gael eu cyhuddo o lofruddio Anthony.

"Fe fu'r gweithiwr achosion penodol Neil Wright a minnau'n gweithio penwythnosau a fin nos er mwyn sicrhau bod yr achos wedi'i baratoi'n drwyadl," meddai Colin.

Plediodd Taylor yn euog o lofruddio ac fe gafwyd Barton yn euog o lofruddio. Roedd y dedfrydau'n uwch oherwydd yr elfen hiliol: cafodd Taylor ddedfryd o garchar am o leiaf 23 mlynedd, a Barton o leiaf 18 mlynedd.

Roedd perthynas gref rhwng y Tîm Erlyn a theulu Walker. Ar ôl y ddedfryd euog yn erbyn Barton, fe ofynnodd y teulu am gael cwrdd â'r Tîm Erlyn yn Llys y Goron Lerpwl. Wrth i aelodau'r tîm gerdded i'r ystafell, fe gymeradwyodd y teulu. "Roedd hynny'n brofiad gwefreiddiol," meddai Colin. "Roedd urddas a dewrder teulu Walker yn ystod y treial yn anhygoel."

- Cafodd cynllun ysgoloriaeth y gyfraith ei lansio gan y CPS er cof am Anthony. Roedd Anthony wedi bod â'i fryd ar fynd yn gyfreithydd.

Colin Davies

Euogfarnu Llofrudd Caeth

Cyhuddwyd Yousef Bouhaddou, dyn 28 oed oedd yn gaeth i grac cocên, o lofruddio Robert Symons, athro oedd yn byw yn Chiswick, gorllewin Llundain. Torrodd Bouhaddou i mewn i gartref y teulu yn ystod oriau mân y bore.

Yno ar y pryd roedd Mr Symons, ei wraig, ei ddau blentyn ifanc a'i chwaer-yng-nghyfraith a'i gŵr. Fe glywodd Mr Symons sŵn i lawr y grisiau ac aeth i ymchwilio. Fe gafodd ei drywanu i farwolaeth gan Bouhaddou, a ddefnyddiodd gyllell o ddrôr y gegin.

Yn y treial, fe geisiodd Bouhaddou awgrymu mai gan Mr Symons oedd y gyllell, a'i fod wedi cymryd y gyllell oddi arno, a thrwy wneud hynny fod Mr Symons wedi disgyn ar y gyllell a'i fod felly wedi marw'n ddamweiniol.

Fe gymerodd y rheithgor gwta 14 munud i benderfynu bod Bouhaddou yn euog o lofruddio. Credir mai dyma'r dyfarniad cyflymaf mewn achos o lofruddiaeth yn yr Old Bailey.

Ateb Eich Cwestiynau

Pam mae rhai achosion yn mynd i lysoedd ynadon ac eraill yn mynd i Lys y Goron?

Mae amryw o ddeddfau yn nodi ble mae'n rhaid rhoi achosion ar brawf. O flaen y llysoedd ynadon y daw dros 90 y cant ohonynt. Nid oes gan ynadon gymwysterau cyfreithiol, ond maent wedi'u hyfforddi a'u cynghori gan gynghorydd cyfreithiol cymwys neu farnwr llys ynadon (barnwr rhanbarth). Bydd ynadon yn penderfynu a yw'r sawl a gyhuddir yn euog ai peidio ac, os yw, y ddedfryd briodol.

Rhaid delio â'r achosion mwyaf difrifol fel llofruddiaeth, treisio a lladrata, yn Llys y Goron ble bydd yr achos yn cael ei wrando gan farnwr a rheithgor. Y rheithgor, sef aelodau'r cyhoedd, fydd yn penderfynu a yw'r sawl a gyhuddir yn euog. Os bydd yn euog, bydd y barnwr yn penderfynu ar y ddedfryd briodol.

Y mae nifer o droseddau y gellir eu rhoi ar brawf un ai yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron. Yn eu plith mae dwyn, bwrgleriaeth a gyrru'n beryglus. Gyda'r achosion hyn, bydd yr ynadon yn penderfynu'n gyntaf a ydynt o'r farn fod ganddynt bwerau digonol i ymdrin â nhw. Mae gan y sawl a gyhuddir hawl hefyd i ddewis cael ei roi ar brawf yn Llys y Goron yn yr achosion hyn.

Mae Llys y Goron yn gweithredu mewn 90 canolfan ledled Cymru a Lloegr.

Os digwyddodd trosedd i mi, a gaf i gyfle i ddweud pa effaith gafodd hyn ar fy mywyd?

Cewch. Mae hawl gan bob dioddefwr i wneud Datganiad Personol Dioddefwr. Ynddo, gallant egluro beth ddigwyddodd iddynt o ganlyniad i'r trosedd. Gellir gwneud Datganiadau Personol Dioddefwr unrhyw adeg hyd nes y bydd troseddwr yn cael ei ddedfrydu.

A yw'r CPS yn gallu apelio yn erbyn dedfryd?

Nac yw. Does gan yr Erlyniad ddim hawl i apelio yn erbyn dedfryd. Ond, mae gan y Twrnai Cyffredinol rym i gyfeirio achosion y bydd Llys y Goron yn delio â nhw at y Llys Apêl os bydd hi o'r farn bod y ddedfryd yn "rhy drugarog".

Nid yw'r ffaith bod dedfryd yn ymddangos yn drugarog yn ddigonol; rhaid i'r ddedfryd fod yn rhy drugarog. Mewn achosion a gyfeirir ato, mae gan y Llys Apêl rym i gynyddu dedfryd.

Byddwn yn tynnu sylw'r Twrnai Cyffredinol at unrhyw achosion ble byddwn yn teimlo bod y ddedfryd a roddwyd yn rhy drugarog.

Nodiadau

Nodiadau

Cyhoeddiadau'r CPS
ffôn: 020 7796 8442;
e-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Canolfan Ymholiadau'r Cyhoedd y CPS
ffôn 020 7796 8500;
e-bost: enquiries@cps.gsi.gov.uk

Cwynion y CPS
e-bost: complaints@cps.gsi.gov.uk

System Cyfiawnder Troseddol
gwefan: www.cjsonline.gov.uk

Cymorth i Ddioddefwyr
Llinell Gymorth: 0845 30 30 900;
gwefan: www.victimsupport.org.uk

Dylunio gan Ecoutez Creative
ffôn: 01442 842255

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton,
ffôn: 01204 550803

CPS

Fe gewch ragor o wybodaeth am y CPS ar ein gwefan:

www.cps.gov.uk